

thewallich
atal digartrefedd • preventing homelessness

# Disgrifiad o Rôl Gwirfoddoli

Drwy wirfoddoli gyda The Wallich, byddwch yn rhan o'n cymuned, sy'n ymdrechu i greu Cymru lle mae pobl yn sefyll gyda'i gilydd i ddarparu gobaith, cefnogaeth ac atebion i roi diwedd ar ddigartrefedd.

## Beth fyddwch chi'n ei wneud?

Mae ein rolau gwirfoddoli yn amrywiol. Gallwch wirfoddoli yn ein gwasanaethau darparu cymorth neu yn ein hadran weinyddol. Rydyn ni'n aml yn gweld ein rolau gwirfoddoli fel rhai sy'n gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ychwanegu gwerth y byddai ein gweithwyr wrth eu bodd yn eu gwneud, ond weithiau does ganddyn nhw ddim y gallu i wneud hynny. Gall rolau gwirfoddoli gynnwys y canlynol:

- Cyfeillion Gwirfoddol
- Gwirfoddolwyr Allgymorth
- Gwirfoddolwyr Gweithgareddau
- Gwirfoddolwyr Cyllid
- Gwirfoddolwyr Cynorthwyol
- Gwirfoddolwyr Preswyl
- Gwirfoddolwyr Gweinyddol
- Gwirfoddolwyr Codi Arian

## Am beth rydyn ni'n chwilio?

Y nodwedd bwysicaf y gall gwirfoddolwr ei rhoi i The Wallich yw eu gwerthoedd a'u hawydd i helpu i atal digartrefedd. Rydyn ni'n chwilio am unigolion sy'n ddewr, yn benderfynol, yn ddilys, yn dosturiol ac sydd eisiau bod yn rhan o'n cymuned. Gellir dysgu popeth arall, naill ai drwy fentoriaid gwirfoddol a chymheiriaid ar y safle, neu drwy ein hystod eang o hyfforddiant sydd ar gael i bob gwirfoddolwr.

Wrth gwrs, efallai fod gennych sgil benodol y byddech chi'n hoffi ei defnyddio drwy wirfoddoli, ac os oes gennych chi, rydyn ni'n awyddus i glywed mwy am hynny ac i weld sut y gallwn ni ddewis y rôl gywir i chi.

## Pam gwirfoddoli gyda ni?

Mae ein gwirfoddolwyr yn dweud bod gwirfoddoli yn hwyl, yn werth chweil ac yn ffordd wych o adeiladu ar sgiliau presennol a datblygu sgiliau newydd, gan hefyd gwrdd â thîm rhagorol o bobl a'n defnyddwyr gwasanaeth gwych.

Mae llawer o bobl sy'n gwirfoddoli i ni yn The Wallich wedi profi digartrefedd eu hunain, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ffrindiau neu aelodau o'r teulu, ac mae gwirfoddoli yn ffordd o helpu i sicrhau bod y rheini sy'n ddigartref yn gallu dechrau byw bywydau diogel ac annibynnol.

Fodd bynnag, yn yr un modd, mae llawer o bobl sy'n gwirfoddoli i ni heb brofi digartrefedd, ac mae gwirfoddoli i ni yn ffordd o roi'n ôl i gymdeithas gan helpu i sicrhau bod gan unrhyw un sy'n profi digartrefedd rwydwaith cymorth cyfeillgar a phroffesiynol ar waith i'w helpu drwy un o gyfnodau anoddaf eu bywyd.

Mae pawb sy'n gwirfoddoli yn The Wallich yn ein helpu i sicrhau bod Cymru yn lle mae pawb yn sefyll gyda'i gilydd i atal digartrefedd.